

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Llywodraeth Cymru

18 Tachwedd 2021

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 11 Tachwedd, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu diweddariad pellach ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir).

Gan nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol wedi'i osod eto, rydym yn pryderu na fydd gennym ddigon o amser i'w ystyried cyn adrodd. Y cyfarfod nesaf a drefnwyd o ran ein Pwyllgor yw 1 Rhagfyr, hynny yw, y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 2 Rhagfyr. Nid yw'r amserlen hon yn caniatáu gwaith craffu ystyrllon.

Er mwyn cynllunio dull y Pwyllgor o ystyried ac adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r dyddiad yr ydych yn disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r gwelliannau a wnaed i'r Bil ar 20 Gorffennaf cyn gynted ag y bo modd. Fel y gwyddoch, mae rheol sefydlog 29.2 (iii) yn nodi y dylai'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol fel rheol ddim hwyrach na phythefnos ar ôl cyflwyno unrhyw welliannau perthnasol. Mae bron i bedwar mis bellach wedi mynd heibio a disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ychydig cyn y Nadolig. Yn eich llythyr dyddiedig 1 Hydref, dywedasochn y byddai'n fwy defnyddiol cyhoeddi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol unwaith y bydd yr holl welliannau wedi'u cyflwyno.



Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol wedi cyfyngu ar ein gallu i graffu ar y darpariaethau perthnasol mewn modd amserol. O gofio'r dyddiad cau hynod dynn ar gyfer adrodd, rydym ni o'r farn y byddai'n fwy defnyddiol i'r Aelodau pe baech yn cyhoeddi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymwneud â'r gwelliannau a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 22 Tachwedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Cc: Huw Irranca-Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.